## ECO 4 Flex – Tystiolaeth dderbyniol

| Llwybr | | Tystiolaeth dderbyniol |
|---|---|---|
| **Llwybr 1:** | | • Ffurflen dreth / dogfennau P60 mwyaf diweddar ar gyfer pob cyflogaeth.<br>• Datganiad(au) banc dros gyfnod o 3 mis yn olynol o fewn y 3 mis cyn dyddiadau a chyhoeddiadau datganiad yr Awdurdod Lleol.<br>• Datganiad pensiwn incwm (blynyddol neu, os ydych chi'n cael hysbysiad misol, 3 o fewn y 3 mis diwethaf).<br>• Cyfloglenni'r 3 mis diwethaf os ydych chi'n cael eich talu'n fisol, neu'r 5 wythnos ddiwethaf os ydych chi'n cael eich talu'n wythnosol<br>• Dogfen P45 o fewn y 3 mis diwethaf<br>• Llog wedi'i gronni o arbedion, buddsoddiadau a bondiau.<br><br>Dylai datganiadau banc sy'n cael eu defnyddio yn dystiolaeth ar gyfer llwybr 1 ddangos y taliadau credyd sydd wedi'u derbyn, yn ogystal ag enw a chyfeiriad deiliad y tŷ. Mae modd golygu gwybodaeth bellach os yw deiliad y tŷ yn dymuno gwneud hynny, cyn belled â'i bod hi'n glir nad yw'r taliadau sydd wedi'u derbyn wedi cael eu golygu.<br><br>Rhaid cynnwys incwm pob aelod o'r tŷ sy'n hŷn nag 18 oed. Rhaid cynnwys pob incwm, waeth fo'r person sy'n ei dderbyn yn gyfrifol neu'n cyfrannu at filiau'r tŷ ai peidio. |
| **Llwybr 2 :** | Procsi 1 | Wedi'i wirio a'i ddilysu'n awtomatig yn seiliedig ar ardaloedd wedi'u henwi'n benodol sydd wedi'u nodi yn y Datganiad o Fwriad |
| | Procsi 2 | • Copi o lythyr/cadarnhad gostyngiad treth y Cyngor e.e. llun, e-bost, PDF gydag enw a chyfeiriad i'w gweld yn glir |
| | Procsi 3 | • Llythyr atgyfeirio wedi'i lofnodi gan ddoctor, meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall gyda chyfeiriad e-bost GIG dilys sy'n cadarnhau bod person sy'n byw yn y tŷ yn agored i niwed mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | oerfel ac yn dioddef o gyflwr iechyd fel sydd wedi'i nodi yng nghanllaw y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE): Argymhelliad 2, am reswm arall heblaw incwm isel.<br>• Neu o leiaf un o'r canlynol yn ysgrifenedig (mae Ofgem yn argymell darparu mwy nag un er sicrwydd). Nodwch, dyw'r rhestr yma ddim yn hollgynhwysfawr:<br>○ Cofnod Crynodeb o Ofal y GIG os yw'n nodi'n glir bod y claf yn dioddef o gyflwr iechyd sydd wedi'i nodi yng nghanllaw NICE neu'n derbyn meddyginiaeth ar gyfer y cyflwr. Rhaid i'r Cofnod Crynodeb o Ofal fod wedi'i ddilysu gyda stamp y feddygfa<br>○ Ar gyfer pobl â chyflyrau cardiofasgwlaidd: llythyrau diagnosis gan ysbyty, atgyfeiriadau gweithiwr cymdeithasol, copi o bresgripsiwn sy'n ailadrodd ar gyfer plentyn ag asthma, neu gopïau o lythyron atgyfeirio i grwpiau penodol sy'n helpu pobl â'r cyflyrau yma<br>○ Ar gyfer pobl ag anableddau: Taliadau Annibyniaeth Personol, Lwfans Byw i'r Anabl neu hysbysiadau dyfarnu Lwfans Gweini<br>○ Ar gyfer pobl hŷn (65 oed neu'n hŷn): tystysgrif geni neu briodas, pasbort, copi o bàs bws neu ddatganiad pensiwn.<br>○ Ar gyfer aelwydydd â phlant ifainc (5 oed neu'n iau): tystysgrif geni, llythyr cofrestru mewn ysgol neu basbort<br>○ Ar gyfer menywod beichiog: Ffurflen B1 MAT. |
| | Procsi 4 | • Unrhyw ddogfennau sy'n dangos cymhwysedd am brydau ysgol am ddim ar sail incwm isel wedi'i ddarparu gan yr Adran Addysg neu gan yr ysgol<br>• Gwasanaeth Gwirio Cymhwysedd (ECS)27 www.fsm.education.gov.uk<br>https://www.gov.uk/government/publications/free-school-meals-guidance-for-schools-and-local-authorities (Saesneg yn unig). |
| | Procsi 5 | Ddim ar gael ar hyn o bryd. |
| | Procsi 6 | • Templed llythyr/ffurflen Ofgem wedi'i lenwi a'i ddarparu gan Gyngor ar Bopeth neu ddarparwr ynni. |
| **Llwybr 3** | | • Templed llythyr/ffurflen Ofgem wedi'i lenwi a'i ddarparu gan weithiwr proffesiynol o fewn ymddiriedolaeth y GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu gan feddyg teulu.<br>• Mae modd derbyn copïau caled o lythyrau o gefnogaeth ond rhaid iddyn nhw fod ar bapur pennawd swyddogol ac wedi'u dilysu gan stamp meddygfa teulu. Rhaid i'r llythyr nodi bod rhywun yn y tŷ yn |

| | |
|---|---|
| | dioddef o un o'r pedwar cyflwr sydd wedi'u nodi a bod iechyd y person hwnnw'n cael ei effeithio'n andwyol gan fyw mewn tŷ oer. |
| **Llwybr 4** | Ddim ar gael ar hyn o bryd. |

Mae templedi o'r ffurflenni ar gael ar y wefan er mwyn cynnwys llythyr meddyg teulu/GIG, llythyr atgyfeirio CAB a llythyr dilysu gosodwr fel bod modd i syrfewyr roi gwybod i dai yr Awdurdod Lleol a thempled o ffurflen gais. Ffurflenni Flex a Dogfennau Atodol yr Awdurdod Lleol a'r Cyflenwr ar gyfer Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr ac ECO4 | Ofgem (Saesneg yn unig)